ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

28ain o Fedi

Annwyl Riant/Gwarcheidwaid,

Ddydd Gwener yma, byddwn fel ysgol yn cynnal diwrnod gwisg anffurfiol i achos pwysig iawn sydd wedi ein heffeithio fel cymuned ysgol. Derbyniodd disgybl ym Mlwyddyn 11, Jacob Crane, ddeiagnosis o Leukaemia o fewn y bythefnos ddiwethaf, ac yn dilyn sgyrsiau gyda'r teulu, yr ydym yn awyddus i ddangos ein cefnogaeth i aelod o deulu Bryn Tawe. Bydd yr arian a godir yn cefnogi Jacob a'i deulu yn ystod ei driniaeth ac yn helpu plant a'u teuluoedd wrth wynebu sefyllfaoedd tebyg.

Bydd croeso felly i ddisgyblion wisgo gwisg anffurfiol ar ddydd Gwener, gyda chyfle, os dymunant, i wisgo crys pêl-droed i adlewyrchu un o brif ddiddordebau Jacob. Yn dilyn y drefn arferol, gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £1 gan ddisgyblion, gyda chyfraniad o 50c yr un os oes brawd/chwaer yn yr ysgol.

Hoffwn hefyd dynnu eich sylw at y ddolen ar gyfer y dudalen Just Giving, lle bydd croeso i aelodau ehangach o deulu'r ysgol wneud cyfraniad i'r achos hollbwysig yma https://www.justgiving.com/crowdfunding/craney?utm_term=KXZaaaJPJ . Yn ystod y bore, byddwn yn cynnal bore coffi a raffl er mwyn cyfrannu at yr achos teilwng.

Dymunwn yn dda iawn i Jacob a'i deulu dros yr wythnosau nesaf a mawr obeithiwn y byddwch chi fel rhan o deulu Bryn Tawe, yn cefnogi ein hapêl. Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth ac yn y cyfamser, cofiwch gysylltu gyda'r ysgol os ydych am drafod yr uchod, neu am ragor o wybodaeth.

Yn ddiffuant,

Simon Davies

Mr Simon Davies
Pennaeth

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol Sy'n Parchu Hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi Cymru
Buddsoddwyr Mewn Pobl Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales